yr hebog a'r dryw,
dysg bawb nad ydynt yn cyd-dynnu
i fyw mewn heddwch.

Arglwydd Iesu, Goleuni'r byd,
a anwyd ym Methlehem, dinas Dafydd,
a anwyd fel yntau i fod yn frenin:
Boed i ti gael dy eni yn ein calonnau adeg y Nadolig,
bydd yn frenin ein bywydau heddiw. Amen.

Arglwydd Iesu, Goleuni'r byd,
dywedodd y proffwydi y byddet ti'n dod â heddwch
ac achub dy bobl mewn trybini.
Rho heddwch yn ein calonnau adeg y Nadolig
a dangos cariad Duw i'r byd i gyd. Amen.

Arglwydd Iesu, Goleuni'r byd,
dywedodd Ioan Fedyddiwr wrth y bobl am fod yn barod,
am dy fod yn agos iawn.
Wrth i'r Nadolig nesáu o ddydd i ddydd,
cynorthwya ni i fod yn barod i'th groesawu'n awr. Amen.

Arglwydd Iesu, Llewyrch o Lewyrch,
daethost i'n plith.
Cynorthwya ni sy'n byw yn ôl dy oleuni
i ddisgleirio fel goleuadau yn dy fyd.
Gogoniant i Dduw yn y goruchaf. Amen.

Paratoi'r cartref ar gyfer y Nadolig
Arhoswn yn effro
glanhawn y tŷ
yn goch ac yn wyrddni disgleiriaf a fu.
Ac arhoswn am Iesu nes y daw,
Fe arhoswn ni nes y daw.

Fe godwn y goeden
yn ddisglair a thlos,
â golau a gemau
i sgleinio drwy'r nos.
A chreu iddo gartref
â gwely o bren,
a lle digon uchel
i warchod ei ben.
Dewch â defaid, bugeiliaid
i'w dderbyn i'r byd,
ac ychen ac asyn
i'w gadw yn glyd.

O Arglwydd Grist Iesu
mor dyner dy rudd,
Bendithia blant bychain
bob nos a phob dydd.